# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **23 Mai 2018.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Robert Smith | **Adran Etholiadol:** | Llwchwr Uchaf |
|---|---|---|---|

| **Swydd Cyflog Uwch:** | Cadeirydd y Pwyllgor - Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Rwyf wedi cynnal cymorthfeydd misol gyda'r nos yn y Neuadd Les, Casllwchwr ac wedi cymryd rhan mewn cymorthfeydd stryd ar draws Llwchwr Uchaf yn 2017-18. Hefyd, es i i foreau coffi a oedd wedi darparu cyfleoedd i breswylwyr gwrdd â chynghorwyr lleol. Yn ogystal, rwyf wedi cefnogi digwyddiadau lleol a gynhaliwyd gan Gyngor Tref Casllwchwr, Eglwys Dewi Sant, Capel Penuel, Capel Moriah, Ysgol Gynradd Tre Uchaf, Ysgol Gymraeg Pontybrenin, Clwb Rygbi Casllwchwr a Chlwb Gweithwyr Casllwchwr.

Rydw i wedi cyflwyno barn preswylwyr ar geisiadau cynllunio mawr. Rydw i hefyd wedi trafod materion diogelwch ffyrdd â phreswylwyr a swyddogion ac wedi gofyn am nifer o arolygon cyflymder traffig yn yr ardal. Eleni, daeth y gwaith i wella diogelwch cyffordd Heol Dan-y-bryn a Heol Alexandra, Casllwchwr i ben. Yn ogystal â hyn, rydw i wedi bod yn cydweithio â swyddogion er mwyn datrys problem sy'n atal defnydd o'r llwybr rhwng Heol y Gogledd ac Ysgol Tre Uchaf. Rydw i'n hapus bod y gwaith adfer wedi cael ei wneud gan berchennog y tir a byddaf yn gweithio i sicrhau bod unrhyw broblemau sydd ar ôl yn cael eu datrys.

Rydw i wedi rhoi cymorth i ddigwyddiadau codi arian a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Tref Casllwchwr a Chlwb Rygbi Casllwchwr. Yn ogystal â'r uchod, rydw i wedi cyflwyno pryderon preswylwyr unigol i amrywiaeth o adrannau'r cyngor. Mae'r rhain wedi cynnwys materion yn ymwneud â pharcio, draenio, cludiant cyhoeddus, tipio anghyfreithlon, rheoli parciau a gwelliannau amgylcheddol.

**Rhan 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol gan yr adran etholiadol.

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Gallwch weld presenoldeb y cynghorydd yma.
Gallwch weld penodiadau'r cynghorydd i gyrff allanol yma.

Cadeirydd Cyngor Tref Llwchwr
Cyfarwyddwr Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe
Pwll Cenedlaethol Cymru

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2017-2018

Aelod o Bwyllgor Ymgynghorol Gŵyl Abertawe
Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Gymraeg Pontybrenin
Llywodraethwr, Ysgol Gyfun Gŵyr
Cadeirydd Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau Dinas a Sir Abertawe.
Is-gadeirydd (Abertawe) Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Wedi sicrhau gwaith ailwynebu i balmentydd ar Heol Pen-y-Scallen a Heol Bryn.
Wedi sicrhau gwelliannau i gyffordd Heol Dan-y-bryn a Heol Alexandra mewn ymateb i bryderon a nodwyd am ddiogelwch ar y gyffordd.
Wedi cyflwyno barn preswylwyr mewn perthynas â datblygiad arfaethedig Tŷ'r Fry a monitro cynnydd y Cytundeb Adran 106 sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn. Wedi comisiynu arolwg cyflymder mewn rhannau o Lwchwr Uchaf.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Gallwch weld hyfforddiant cynghorwyr yma.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Diacon ac ysgrifennydd Capel Penuel, Casllwchwr.

**Rhan 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Uwch (Cadeirydd Pwyllgor): £22,100

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma.
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 31/10/2018 |